

Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

Gofynnwch am/Ask for: **Garem Jackson**
☎ (01286) 679089 Ein Cyf / Our Ref:
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru

31 Mawrth 2020

AT: RIENI/WARCHEIDWAID SYDD YN WEITHWYR ALLWEDDOL YNG GWYNEDD

Annwyl riant/warcheidwad

Darpariaeth ofal mewn ysgolion i blant i rieni/warcheidwaid sydd yn weithwyr allweddol - Covid-19

Yn gyntaf, gadewch i mi ddiolch i chi i gyd, yn ddiffuant, am y gwaith rhyfeddol yr ydych chi, fel gweithwyr allweddol, yn ei wneud ar hyn o bryd. Rwy'n siŵr y gallaf siarad ar ran aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor ynghyd â'n staff ysgol anhygoel (sy'n gofalu am eich plant) i gyfleu ein diolchgarwch, ein hedmygedd a'n cefnogaeth ar gyfer popeth yr ydych yn ei wneud i'n cadw'n ddiogel. Rydym i gyd yn ddyledus i chi am eich ymdrechion a'ch ymroddiad anhunanol. Gofynnaf yn garedig i chi sicrhau nad ydych ond yn defnyddio'r ddarpariaeth ofal mewn ysgolion pan yn gwbl angenrheidiol, a dim ond os nad ydych yn gallu gwneud trefniadau amgen i ofalu am eich plentyn/plant gartref er mwyn sicrhau bod y pwysau ar ysgolion i ddarparu'r gofal angenreidiol hwn yn cael ei liniaru gymaint â phosib'.

Er bod y sefyllfa o ran Coronafeirws (Covid-19) yn datblygu'n gyflym, fe'ch sicheir bod Cyngor Gwynedd yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion, lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn gweithredu unrhyw fesurau angenrheidiol i amddiffyn disgyblion a staff rhag lledaeniad Coronafeirws (Covid-19) yn ein hysgolion.

Er mwyn sicrhau bod yr ysgolion yn gweithredu'n ddiogel, rydym yn dilyn canllawiau cenedlaethol ac wedi rhoi ystod o fesurau rheoli ar waith i atal y feirws rhag ymledu, gan gynnwys:

- hyrwyddo golchi dwylo ac arferion hylendid da drwy gydol y dydd;
- defnyddio mesurau ymbellhau cymdeithasol i'r graddau y mae hynny'n ymarferol;
- cyfyngu ar niferoedd y plant mewn dosbarthiadau;
- cynghori pob aelod o staff i fod yn wylidwrus ar gyfer unrhyw un sy'n arddangos symptomau;
- gwasgaru cyfnodau egwyl ac amseroedd cinio;
- lleihau nifer y gwrthrychau/cyfarpar sy'n cael eu rhannu;
- annog peidio dod ag eiddo personol i'r ysgol;
- lleihau unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys cyswllt;
- cynnal goruchwyliaeth o fewn dosbarthiadau; a
- threfniadau os oes unrhyw un yn yr ysgol yn arddangos symptomau.

Er mwyn cefnogi'r camau a gymerir o fewn yr ysgolion, mae eich rôl fel rhieni/gwarcheidwaid yn hanfodol. Yn hyn o beth, byddwn yn gofyn i chi ufuddhau i'r holl ganllawiau cenedlaethol sydd ar gael mewn perthynas â symptomau Coronafeirws (Covid-19), gan gynnwys, lle bo'n bosibl, aros gartref ac ymbellhau cymdeithasol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r wybodaeth hon ac mae ar gael yn rhad ac am ddim ar wefannau Llywodraeth Cymru, y GIG ac lechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn gofyn i chi fod yn arbennig o wylidwrus wrth adnabod unrhyw symptomau yn eich plentyn cyn dod â nhw i'r ysgol. Mae cyngor y GIG yn nodi mai symptomau Coronafeirws (Covid-19) yw:

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.uk

- tymheredd uchel – mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i'w gyffwrdd ar eich brest neu'ch cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd); a
- pheswch newydd, parhaus – mae hyn yn golygu pesychu am fwy nag awr, neu tri neu fwy o gyfnodau pesychu mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gall fod yn waeth nag arfer).

Os yw eich plentyn, neu unrhyw un yn eich cartref, yn arddangos y symptomau hyn, yna fe'ch cynghorir i ddilyn canllawiau cenedlaethol mewn perthynas ag aros gartref ac ymbellhau cymdeithasol, a pheidio â dod â'ch plentyn i'r ysgol.

Yn ogystal â'r uchod, ac i gefnogi'r trefniadau sydd eisoes yn eu lle, byddwn yn eich annog i roi cyngor i'ch plentyn i olchi eu dwylo:

- cyn gadael cartref;
- wrth gyrraedd yr ysgol;
- ar ôl defnyddio'r toiled;
- ar ôl seibiannau a gweithgareddau corfforol;
- cyn bwyta unrhyw fwyd, gan gynnwys byrbrydau;
- cyn gadael yr ysgol; ac
- ar ôl dychwelyd adref o'r ysgol.

Yn olaf, byddwn hefyd yn gofyn, wrth ddanfôn neu gasglu eich plentyn o'r ysgol, eich bod yn arsylwi ar yr holl argymhellion ymbellhau cymdeithasol a:

- pheidiwch ag ymweld â'r ysgol os ydych chi neu'ch plentyn yn arddangos unrhyw symptomau o Coronafeirws (Covid-19);
- aros o leiaf ddau fetr ar wahân i eraill bob amser; a
- pheidiwch ag ymgynnull mewn grwpiau wrth gyrraedd neu wrth godi eich plentyn o'r ysgol.

Fe'ch sicrhair bod yr awdurdod lleol yn cymryd pob cam posibl i ymateb i'r sefyllfa hon a gwerthfawrogi eich cymorth i sicrhau parhad y ddarpariaeth ofal plant hollbwysig hon, ac atal lledaeniad heintiau.

I gloi, diolch eto am bopeth yr ydych yn ei wneud. Mae'r Cyngor hwn yn sefyll gyda chi a bydd yn parhau i wneud popeth posibl i'ch cefnogi.

Yn gywir



Garem Jackson
Pennaeth Addysg



Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams
Aelod Cabinet – Addysg